

# Maddeuant

## Darllen: Mathew 18:21–22

Amod maddeuant ydi edifeirwch. Golyga hyn ein bod yn troi ein golygon oddi wrthym ni'n hunain ac at Dduw, ac yna at bwy bynnag yr ydyn ni wedi troseddu yn ei erbyn. A'r prawf ein bod wedi derbyn maddeuant yw bod ysbryd maddeugar wedi gafael ynom, a bod ein bywyd yn llawn o gariad at eraill. Mae Pedr yn herio'r Iesu trwy ofyn faint o weithiau y dylai faddau i un oedd yn dal i bechu yn ei erbyn, 'ai hyd seithwaith?' (Mathew 18:21) Awgrym Pedr yw bod hyn yn ychwanegiad sylweddol at y rhif a ystyrid yn ofynnol dan y Gyfraith. Yn ôl geiriau'r Talmwd, roedd dyn i faddau deirgwaith a dim mwy. Er i Pedr ddyblu rhif gofynion y Gyfraith, yng ngolwg Iesu roedd yn bell o ddeall beth yn union oedd gwir arwyddocâd maddeuant. Nid canmol ein hunain a dweud mor dda ydym yw maddeuant; mae'n golygu trawsffurfio cymeriad ac agwedd at eraill. Chwyldro personol yw maddeuant.

Mae Iesu'n mynd rhagddo i esbonio hyn ymhellach yn nameg y Gwas Anfaddeugar. Mathew sy'n cofnodi'r ddameg hon am frenin a ymddiriedodd ei eiddo i'w weision. Yn y man, mae'n penderfynu adolygu'r cyfrifon. Er mawr syndod iddo, mae un gwas mewn dyled, dyled na fedrai byth ei thalu'n ôl. Mae'r brenin yn trugarhau, ac yn maddau iddo. Ond mae'r gwas hwnnw'n mynd ati i gyhuddo un o'i gyd weision o fod mewn dyled 'o gant o ddarnau arian' iddo yntau. Mae'n troi'n gas, ac yn ei anfon i'r carchar am nad oedd ganddo fodd o dalu ei ddyledion. Aeth y gweision eraill i gwyno am ymddygiad y gwas anfaddeugar, a galwodd y brenin ef ato a dangos iddo'r anghysondeb rhwng y maddeuant a dderbyniodd a'i amharodrwydd i faddau i'w gyd was. Ond beth am agwedd y brenin sydd am ei anfon i'r carchar? Tybed ydi yntau'r un mor ddialgar â'r gwas?

Ystyriwn neges y ddameg. Maddau'r cwbl wnaeth y brenin. Roedd sefyllfa'r gwas yn anobeithiol: ni allai byth dalu ei ddyledion yn llawn. Ond yn hytrach na'i gosbi, mae'r brenin yn maddau'r ddyled. Mae'r brenin

yn anwybyddu'r cyfan ac yn maddau'r cwbl iddo. Mae'n maddau yn rhad iddo. Rhoddodd y brenin iddo lawer mwy na'i haeddiant. Mor barod yw Duw i faddau troseddau mawr. Ond yn agwedd y gwas, gwelwn mor barod yw dyn i ddial am droseddau bach. Dyna a ddangosir trwy'r gwahaniaeth mawr rhwng dyledion y gwas i'w feistr a dyledion ei gyd-was iddo yntau. Mae'r ddameg yn dangos na allwn dderbyn maddeuant Duw onid ydyn ni'n barod i faddau i'n cyd-ddynion. Yn y weddi a ddysgodd Iesu i'w ddisgyblion, mae'n ein hannog i ofyn i Dduw, 'maddau inni ein troseddau, fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn' (Mathew 6:12). Mae Duw'n cynnig ei faddeuant yn rhad, ac mae'n gofyn i ni ei dderbyn. Ac o'i dderbyn, byddwn ninnau wedyn o'r un ysbryd â'r Duw sy'n maddau. Byddwn ninnau wedyn yn barod i faddau, 'nid hyd seithwaith ... ond hyd saith deg seithwaith' (Mathew 18:22).

### **Myfyrdod pellach:**

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd maddau? Rhowch enghreifftiau.

Ydi maddeuant Duw yn ddiamod?